Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gyfun Ystalyfera
# Glan Yr Afon
# Ystalyfera
# Abertawe
# SA9 2JJ

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol Gymraeg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Gyfun Ystalyfera gyda 1001 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol ym mhentref Ystalyfera yng Nghwm Tawe. Mae'n gwasanaethu dalgylch mawr yn ymestyn o Frynaman yn y gorllewin, i Gwmafan yn y dwyrain. Daw mwyafrif y disgyblion o drefi Castell-nedd a Phort Talbot, a'r gweddill o nifer o drefi llai a phentrefi yn yr ardal gyfagos. Teithia ychydig o ddisgyblion i'r ysgol o dde Powys a dwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae'r dalgylch yn cynnwys ardaloedd diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol helaeth ynghyd â phentrefi gwledig. Mae 20.7% o ddisgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 11.9% o'r disgyblion wedi cael eu cofrestru'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartalog cenedlaethol o 17.4%.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae gan 0.5% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.7% yn genedlaethol. Mae gan tua 12% anghenion ychwanegol arbennig, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi ble siarada o leiaf un rhiant y Gymraeg ond gall y rhan fwyaf siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Addysgir yn yr ysgol yn bennaf trwy'r Gymraeg ond cynigir gwyddoniaeth o Flwyddyn 10 ymlaen trwy'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Penodwyd y pennaeth i'r ysgol ym mis Medi 2011. Yn ogystal â'r pennaeth, mae dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol yn cyflawni'r tîm arwain.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Ystalyfera yn 2012-2013 yw £3,808. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Castell Nedd Port Talbot yw £5,882 a'r lleiafswm yw £3,808. Mae Ysgol Gyfun Ystalyfera yn safle 11eg o'r 11 ysgol uwchradd yng Nghastell Nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera yn ysgol dda oherwydd:

- bod perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol mewn gwersi;
- yr ansawdd cyson dda o addysgu ar draws y pynciau i gyd; ac
- yr ethos gofalgar a chynhaliol sy'n hybu cydraddoldeb i bob disgybl.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera yn dda oherwydd:

- y disgwyliadau uchel gan arweinwyr ar bob lefel;
- y ffocws clir a chyson ar wella safonau;
- y corff llywodraethol rhagweithiol sydd yn herio'r ysgol i wella, a dal yr ysgol i gyfrif yn effeithiol;
- bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella cynhwysfawr a grymus; a
- hanes llwyddiannus yr ysgol o gynnal safonau cyson uchel.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

A2 Gwella perfformiad bechgyn

A3 Hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn trafodaethau dosbarth ac yn gymdeithasol

A4 Gwella cysondeb marcio ac asesu athrawon i sicrhau bod pob athro'n darparu cyngor defnyddiol

A5 Gwella ansawdd ac effaith cydlyniaeth ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y pynciau

A6 Dileu'r diffyg cyllidol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros y pedair blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg ac yn uwch na disgwyliadau. Mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau hefyd yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4 ym mhob dangosydd allweddol.

Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn gyson is na pherfformiad merched ym mhob un o'r dangosyddion hyn. Yn 2012, ni wnaeth ddisgyblion a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim gyflawni cystal ag y gwnaethon nhw mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da iawn. Yn 2012, ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster neu barhau mewn addysg.

Yn y chweched dosbarth, yn gyffredinol, mae disgyblion yn perfformio'n dda.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn y tair blynedd diwethaf, nid yw perfformiad mewn Saesneg a Chymraeg, yn enwedig yn y lefelau uwch, mor gryf ag ydyw mewn ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2009, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson yn uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mewn gwersi, mae bron pob disgybl yn awyddus i ddysgu ac yn gwneud cynnydd da yn eu medrau a'u gwybodaeth. Mae'r disgyblion hyn yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dealltwriaeth bynciol. Datblyga'r rhan fwyaf eu medrau dadansoddol yn effeithiol i ddod i gasgliadau synhwyrol a mireinio'u barnau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd mewn parau neu grwpiau bach. Maent yn trafod ystod eang o syniadau'n feddylgar, yn gwrando ar farnau eraill yn astud ac yn ymateb yn adeiladol i'w gilydd. Mae gan lawer o ddisgyblion afael gadarn ar ystod eang o dermau pynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Siarada llawer o'r disgyblion yn rhugl a gall y mwyaf abl fynegi syniadau soffistigedig trwy gymhwyso'u geirfa eang. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o'r disgyblion, yn enwedig bechgyn, afael digon cadarn ar sut i fynegi'u hunain yn glir yn y Gymraeg. Mewn ychydig o wersi, nid oes gan y disgyblion ddigon o hyder i drafod â'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac maent yn troi i'r Saesneg yn rhy aml.

Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ddarllen yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chywain gwybodaeth briodol o ystod o destunau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn oedi wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd ac nid ydynt yn darllen gyda digon o fynegiant.

Yn y rhan fwyaf o bynciau. mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Mae gan lawer o ddisgyblion afael gadarn ar reolau gramadeg, sillafu ac atalnodi. Ysgrifenna'r disgyblion hyn yn rhugl a chlir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag mae ychydig o ddisgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi sylfaenol yn y Gymraeg a'r Saesneg ynghyd â gwallau treiglo yn y Gymraeg. Yn ychwanegol, defnyddia ychydig o ddisgyblion ormod o eiriau Saesneg yn eu hysgrifennu Cymraeg. Ceir cyflwyniad da yn y rhan fwyaf o lyfrau, fodd bynnag, mewn ychydig o achosion mae gwaith disgyblion yn flêr ac mae llawer o fylchau yn eu gwaith.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion medrau cymdeithasol da ac yn datblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer byd gwaith neu'r cam nesaf o'u haddysg yn effeithiol. Maen nhw'n gwrtais a chyfeillgar i'w gilydd ac yn groesawgar i ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn o fewn gwersi, ar hyd y coridorau ac ar fuarth yr ysgol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn gyson uwch nag ydynt mewn ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Daw rhan fwyaf o'r disgyblion i'w gwersi yn brydlon ac maen nhw bron i gyd yn ymroi eu hunain i'w gwaith yn gydwybodol. Teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol a chytuna llawer bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r prin achos o fwlio.

Mae cyngor yr ysgol yn grŵp effeithiol sydd wedi cael dylanwad ar ystod o faterion megis ehangu ar y dewis o fwyd yn y ffreutur a hylendid y toiledau. Maen nhw wedi cael mewnbwn ar ystod o bolisïau ac wedi cyfrannu at apwyntio staff addysgu. Derbynia'r holl ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i fynegi eu barn am faterion addysgol yn eu gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.

Teimla llawer o'r disgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu'n drylwyr am effeithiau positif ymarfer corff a bwyta'n iach. Cymera llawer o'r disgyblion ran mewn timau chwaraeon ac ystod eang o weithgareddau hybu ffitrwydd yn y clwb 5x60.

Mae disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â chyfrifoldebau ychwanegol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn cefnogi disgyblion iau yn effeithiol iawn yn y cynllun mentora cyfoedion. Chwaraea llawer o ddisgyblion rôl fuddiol a chyfrifol yn y gymuned leol a thu hwnt, er enghraifft trwy gyfrannu'n effeithiol at ystod o elusennau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion ac i ofynion statudol. Cynigia'r ysgol arlwy gyfoethog o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Sicrha'r ysgol fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dilyn cyrsiau o'u dewis. Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r ysgolion cynradd partner er mwyn sicrhau bod cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau blaenorol y disgyblion.

Mae'r mwyafrif o bynciau yn cynllunio'n drwyadl i sicrhau defnydd effeithiol o ystod eang o strategaethau defnyddiol i hyrwyddo'r medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau wedi'i chydlynu'n ddigon effeithiol er mwyn sicrhau defnydd cyson o strategaethau cytun ar draws pob un o'r pynciau. Derbynia'r disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ennill cymhwysterau medrau hanfodol ar lefel 2 a lefel 3 ym mhob cyfnod allweddol. Ceir darpariaeth effeithiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol.

Ceir ystod o gyfleoedd addas i'r disgyblion ehangu eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, er enghraifft yn y gweithgareddau 5x60. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi bod yn ddigon llwyddianus wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymysg y disgyblion. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael sylw priodol yng nghynlluniau gwaith y mwyafrif o adrannau.

Mae cynlluniau gwaith gwyddoniaeth, daearyddiaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o sut i fyw yn gynaliadwy. Ceir pwyslais sylweddol ar ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i fod yn ddinesydd byd-eang o fewn gwasanaethau a chynlluniau'r adran addysg grefyddol. Yn ychwanegol, trefnir amryw o weithgareddau gwerthfawr i godi arian at elusennau gan bwyllgor y gronfa ddyngarol.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith fuddiol iawn rhwng athrawon a disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu yn sylweddol at gynnydd y disgyblion mewn gwersi ar draws y pynciau. Mewn ychydig iawn o wersi, ceir addysgu ardderchog. Yn y gwersi hyn, ceir disgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae'r athrawon yn y gwersi hyn yn frwdfrydig ac yn ysbrydoli'r disgyblion trwy gynllunio creadigol i hyrwyddo cynnydd eithriadol.

Mae'r rhan fwyaf o wersi yn cynnwys ystod eang o weithgareddau symbylol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Cynllunia'r rhan fwyaf o'r athrawon yn drwyadl i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau datblygiad effeithiol o fedrau ynghyd â dealltwriaeth bynciol. Mae gan ran fwyaf o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau holi yn effeithiol i brofi ac estyn dealltwriaeth. Mewn ychydig iawn o'r gwersi, mae symudiad y wers yn rhy araf.

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol. Mae mwyafrif o'r athrawon yn gosod targedau defnyddiol ac yn cyflwyno sylwadau penodol ac adeiladol i'r disgyblion ar sut i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw sylwadau'r athrawon yn ddigon defnyddiol i helpu'r disgyblion i wella eu gwaith. Mae mwyafrif yr athrawon yn cyflwyno ystod ddefnyddiol o strategaethau hunanasesu ac asesu cymheiriaid er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o sut i wella. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau defnyddiol hyn yn cael eu cymhwyso'n ddigon cyson mewn lleiafrif o achosion.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau interim a blynyddol. Cynhwysa'r adroddiadau adborth manwl a defnyddiol i ddisgyblion a rhieni am gynnydd a thargedau ar gyfer gwelliant. Derbynia'r disgyblion a'r rhieni'r cyfle i ymateb yn briodol i'r adroddiadau hyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy wersi addysg grefyddol a gwasanaethau boreol. Darpara'r ysgol amgylchedd gofalgar lle teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddiogel.

Ceir darpariaeth fuddiol ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles disgyblion trwy'r cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio'n ofalus iawn. Mae'n cynnwys amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion ar amrediad eang o destunau perthnasol.

Derbynia'r disgyblion gymorth buddiol oddi wrth lu o asiantaethau allanol. Mae'r arweinyddion blwyddyn ynghyd â'r tiwtoriaid personol yn darparu cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr. Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael ei gymhwyso'n fedrus gan ran fwyaf yr athrawon. Mae system monitro presenoldeb effeithiol yr ysgol, ynghyd â chyfathrebu da â rhieni, wedi arwain at lefelau presenoldeb cyson uchel.

Ceir cymorth da iawn ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon arbenigol a'r cynorthwywyr dysgu yn sicrhau y caiff anghenion y disgyblion hyn eu diwallu'n effeithiol iawn. Caiff cynlluniau addysgol unigol eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r rhieni'n cael eu cynnwys yn llawn. Cynhwysa'r rhain dargedau a strategaethau defnyddiol sydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan y rhan fwyaf o'r athrawon. Trwy weithio yn agos gydag asiantaethau arbenigol, sicrha'r ysgol bod anghenion disgyblion bregus yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Gyfun Ystalyfera yn gymuned gynhwysol, gartrefol. Ceir yma ethos gofalgar a chynhaliol sy'n hybu cydraddoldeb ymhob agwedd. Mae'r ethos hwn yn cefnogi hawliau unigolion o fewn yr ysgol, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu. Nodwedd gref o'r ysgol yw ei chonsyrn amlwg dros eraill a'r awydd i helpu pawb sy'n rhan o'i chymuned.

Serch cyflwr gwael rhannau allanol yr adeilad, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau amgylchedd hwylus ac ysgogol o fewn rhan fwyaf yr ystafelloedd dysgu. Ceir ystod eang o adnoddau addysgu safonol yn cynnwys cyfarpar cyfrifiadurol cyfoes. Gwelir arddangosiadau deniadol o lwyddiannau a gwaith y disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac yn y coridorau. Ceir amrediad priodol o adnoddau ymarfer corff a chaiff y meysydd chwarae a'r ystafelloedd newid eu cadw'n dda. Serch hynny, mae cyflwr gwael y cae pob tywydd yn golygu nid yw'n addas at ei bwrpas.

Mae cyflwr y toiledau'n amrywio ond mae'r rhan fwyaf yn addas at eu pwrpas. Ar y cyfan, caiff yr adeilad a'r safle eu cadw'n raenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol eglur ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae ei arweinyddiaeth gref yn ffocysu ar godi safonau a datblygu'r ysgol ymhellach fel cymuned glos. Ers iddo gyrraedd ym Medi 2011, mae wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo diwylliant o ddisgwyliadau uchel. Cyflea amcanion strategaethol eglur a chaiff y rhain eu deall yn dda a'u cefnogi'n gyson gan staff a disgyblion. Gyda chefnogaeth y llywodraethwyr mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r ychydig iawn o achosion o danberfformio gan aelodau staff yn effeithiol. Canlyniad y gwaith hwn yw bod yr ysgol wedi cynnal safonau cyson uchel yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth dros y tair blynedd diwethaf.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n effeithiol gan ei dîm arwain. Trwy gydweithio'n agos â'i gilydd, maent yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae'r arweinwyr hyn yn rhoi her briodol a chefnogaeth fuddiol i arweinwyr canol. Mae cyfrifoldebau rheolwyr llinell yn eglur, gyda chysylltiadau effeithiol rhwng y tîm arwain a'u hadrannau.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda ffocws clir ar wella safonau. Mewn llawer o achosion, mae'r camau gweithredu dilynol o'r cyfarfodydd yn finiog ac yn sicrhau atebolrwydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r uwch dîm arwain yn herio arweinyddion canol yn ddigon cadarn. Mae llawer o arweinyddion canol yn hyderus wrth ddefnyddio data i ddadansoddi perfformiad ac yn arwain eu hadrannau yn effeithiol.

Mae'r broses rheoli perfformiad yn gosod targedau clir sydd yn cysylltu'n dda gyda blaenoriaethau'r ysgol yn ogystal ag adnabod anghenion datblygu staff yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r targedau yn ddigon heriol. Mae gan y rhan fwyaf o staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir. Dealla'r staff eu rolau yn dda a chydweithiant yn gynhyrchiol.

Mae gan yr ysgol gorff llywodraethol profiadol sydd â nifer priodol o bwyllgorau ar gyfer ystyried agweddau ar fywyd ysgol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y corff llywodraethol o berfformiad yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn gweithio'n agos gyda'r tîm arwain i osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr wedi herio tanberfformiad yn rymus ac maen nhw'n dal yr ysgol yn atebol. Mae gan y llywodraethwyr gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac yn rhoi cefnogaeth fuddiol iddynt.

Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth 14-19 gyda deilliannau cadarnhaol i lawer o fyfyrwyr. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i wella llythrennedd a rhifedd y disgyblion ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau ansawdd gyson uchel i'r addysgu. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal safonau uchel, er enghraifft yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae gan yr uwch dîm arwain ymwybyddiaeth dda o berfformiad ac ansawdd gwaith yr ysgol. Casgla'r ysgol ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chasglu barn y disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen ddefnyddiol. Ceir dadansoddiad manwl o ddata perfformiad ynghyd ag adnabyddiaeth o lwyddiannau a meysydd sydd angen eu gwella.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r ysgol wedi cymryd camau effeithiol iawn i ganfod barnau disgyblion ar waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r disgyblion yn gwerthuso'u gwersi yn rheolaidd o fewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol. Yn sgil yr ymgynghori hwn, addaswyd cynnwys y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ynghyd ag ychydig o arddulliau addysgu yn effeithiol er mwyn ymateb i ofynion y disgyblion.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ffocysu'n briodol ar wella safonau cyrhaeddiad, addysgu ac asesu a throsglwyddo effeithiol o'r ysgolion cynradd. Ceir cysylltiad clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a thargedau ar gyfer gwelliant yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae hunanarfarnu adrannol yn datblygu'n dda gyda chryfderau a meysydd i'w gwella bron ymhob un adroddiad. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn canfasio barnau disgyblion yn bwrpasol er mwyn mireinio eu haddysgu a'u cynlluniau gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl gywir ac yn cyfeirio'n briodol at dystiolaeth uniongyrchol. Ceir cysylltiad clir rhwng deilliannau adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella adrannol ac ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn ddigon hunanfeirniadol.

Mae lleiafrif o athrawon yn aelodau brwd o weithgorau sydd yn ymchwilio i agweddau addysgol a hybu arferion addysgu da. Mae gwaith ychydig o weithgorau, er enghraifft, y rhai cysylltiedig â drama ac addysg gorfforol, wedi llwyddo i wella cyflawniad disgyblion. Mae gan yr ysgol rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i sicrhau datblygiad parhaus ym medrau addysgu'r staff.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda'i hysgolion cynradd partner sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n fuan yn eu hamgylchedd newydd. Ceir rhaglen fisol o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymweld â'r ysgol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol buddiol. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at gynyddu'r niferoedd sy'n trosglwyddo o'r cynradd a sicrhau dilyniant ieithyddol effeithiol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol gwerthfawr gydag ysgolion cyfagos a'r coleg lleol. Maent yn cydgynllunio'n dda i ehangu ar y cynnig o gyrsiau yng

nghyfnod allweddol 4 ac ôl 16. Ceir gweithdrefnau trylwyr i sicrhau ansawdd y bartneriaeth 14-19.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr gydag ystod eang o asiantaethau arbenigol allanol. Caiff y rhain ddylanwad buddiol ar safonau lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogwyr lleol i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion tu hwnt i 16 oed, er enghraifft drwy roi ffug gyfweliadau i ddatblygu eu medrau cyfweliad a magu hyder. Cysyllta'r ysgol yn gyson gyda rhieni er mwyn rhannu gwybodaeth am waith yr ysgol, er enghraifft drwy'r wefan hylaw a defnyddiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol staff â chymwysterau addas i fodloni gofynion y cwricwlwm. Defnyddia'r ysgol fedrau penodol yr athrawon yn effeithiol. Ceir cefnogaeth a hyfforddiant buddiol i'r ychydig iawn o staff sy'n haddysgu pynciau nad ydynt yn arbenigwyr ynddynt.

Mae'r pennaeth, bwrsar a'r llywodraethwyr wedi cydweithio'n effeithiol i ail-strwythuro'r staffio i sicrhau sefyllfa gyllidol gynaliadwy. Mae trefniadau diweddar i leihau nifer y diwrnodau coll gan athrawon wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y ffigyrau hyn. Er bod troswariant o £69,000 yn y gyllideb, mae gan yr ysgol gynlluniau realistig wedi'u cytuno gyda'r awdurdod lleol er mwyn dileu'r diffyg erbyn 2014.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol pob aelod o staff ac ar gyfer ymsefydlu athrawon newydd eu cymhwyso.

Yn sgil y safonau cyson uchel, cynigia'r ysgol werth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2009, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ynghyd â'r dangosydd pwnc craidd, yn gyson uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, ymhlith y 25% uchaf o ran meincnodau prydau ysgol am ddim yn 2011 a 2012. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gyson uwch na disgwyliadau wedi'u modelu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn gyson uwch na'r teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner neu'r chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y ddwy flynedd diwethaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg sy'n hawlio prydau ysgol am ddim. Ers 2010, mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio yn gyson yn uwch na cyfartaledd y teulu ac yn 2011 a 2012, mae ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Yn y tair mlynedd diwethaf, bu gostyngiad mewn perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 2. Yn 2012, bu perfformiad yn y dangosydd hwn yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg wedi gwella ac yn 2012 yn gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn gyson uwch na'r teulu ac yn 2011 a 2012 yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg sy'n hawlio prydau ysgol am ddim. Mae gwyddoniaeth ar lefel 2 yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu hyd at gwymp sylweddol yn 2012. Gosoda'r perfformiad hwn yr ysgol yn is na'r teulu ac yn y 50% isaf o ysgolion tebyg sy'n hawlio prydau ysgol am ddim.

O gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da ym mhob dangosydd. Yn 2012, ni adawodd un disgybl yr ysgol heb gymhwyster.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran prydiau ysgol am ddim. Ers 2009, mae perfformiad yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 wedi amrywio ac yn 2012 yn gosod yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter meincnod isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio ers 2009 ac yn 2012 yn gosod yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter meincnod isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ers 2009 ac yn gosod yr ysgol yn gyson yn uwch na cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2011 a 2012, perfformiad mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg a Saesneg yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Yn 2012, mae

perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn debyg i gyfartaledd y teulu.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad y disgyblion yn dda.  Yn 2012, llwyddodd canran uchel iawn o ddisgyblion y chweched dosbarth i gyflawni trothwy lefel 3. Eleni, enillodd 51 o ddisgyblion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.  Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y sgôr pwyntiau ehangach sylweddol yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn is na pherfformiad y merched ym mhob dangosydd allweddol.  Yn 2012, roedd y gwahaniaethau hyn yn yn ehangach na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.  Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r merched yn well na'r bechgyn ym mhob dangosydd allweddol ac mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy na chyfartaleddau Cymru a'r teulu.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth ddisgyblion a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim, berfformio'n is na'r teulu yn nhrothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg.  Bu'r gwahaniaethau hyn yn ehangach na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Ymatebodd 577 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli ychydig dros hanner holl ddisgyblion yr ysgol.  Mae'r ymatebion hyn i gyd yn llai ffafriol nag ydyn nhw mewn ysgolion uwchradd eraill yng Nghymru.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r mwyafrif yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.  Mae llawer yn dweud bod ganddynt rywun i siarad gydag os ydynt yn poeni.  Teimla ychydig llai na hanner o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu am sut i gadw'n iach ond dywed mwyafrif y disgyblion bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.  Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu yn yr ysgol.  Mae ychydig llai na hanner y disgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda.  Mae'r mwyafrif yn meddwl bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.  Mae tua hanner y disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn a llawer yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb.  Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.  Mae'r mwyafrif yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn teimlo'u bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 89 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol.

Dywed rhan fwyaf y rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae llawer yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn ac yn teimlo bod yr ysgol yn paratoi'u plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae llawer o'r rhieni yn datgan bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn debyg i ymatebion rhieni mewn ysgolion uwchradd eraill yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Gwyer-Roberts | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Aaron Bayley | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anita Rees | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |